Cyllid & Tollau EF

# CIS – cofrestru fel unigolyn ar gyfer taliadau ar ôl didynnu treth

At ddefnydd CThEF yn unig / For HMRC use only

Dogfennau prawf hunaniaeth a ddarparwyd

1

2

Dyddiad DD MM BBBB

Gwasanaeth Cwsmeriaid Cymraeg
CThEF
BX9 1ST

Llinell Gymorth CIS **0300 200 3210**
Minicom **0300 200 3219**

## Pwy ddylai gofrestru?

Os yw eich busnes yn gweithredu fel is-gontractwr yn y diwydiant adeiladu ar sail hunangyflogedig, mae angen iddo gofrestru ar gyfer Cynllun y Diwydiant Adeiladu (CIS).

### Ar gyfer pwy y mae'r ffurflen hon?

Defnyddiwch y ffurflen hon os ydych yn unigolyn ac eich bod am gofrestru fel isgontractiwr i'w dalu dan ddidyniad. Gweler y nodyn 'Sut i gofrestru' ar dudalen 3 i gael rhagor o wybodaeth am gofrestru ar gyfer taliad gros, cwmnïau a phartneriaethau.

Efallai y byddwch am ddangos y ffurflen hon i'ch ymgynghorydd treth, os oes gennych un.

### Cofrestru ar-lein

I ddefnyddio'r gwasanaeth rhyngrwyd ar gyfer CIS, ewch i www.gov.uk/cis

Os ydych am gofrestru fel contractwr, ewch i www.gov.uk/what-you-must-do-as-a-cis-contractor/how-to-register

### Help

Rydym yn hapus i'ch helpu gydag unrhyw ran o'r ffurflen hon neu gydag unrhyw beth yn y nodiadau ar dudalennau 3 a 4. Ffoniwch Llinell Gymorth CIS ar 0300 200 3210, neu ewch i www.gov.uk/cis

## Manylion personol

1 **Teitl** Nodwch Mr, Mrs, Miss, Ms neu deitl arall

2 **Cyfenw**

3 **Enwau cyntaf**

4 **Cyfeiriad cartref**

Cod post

5 **Dyddiad geni** DD MM BBBB

6 **Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)**
Os nad oes gennych UTR, gweler tudalen 4 i gael rhagor o wybodaeth.

7 **Rhif Yswiriant Gwladol, os oes gennych un**
Gweler tudalen 4 am ragor o wybodaeth.

8 **Rhif ffôn yn ystod y dydd**

9 **Rhif ffôn symudol**

## Manylion personol parhad

10 **Eich cyfeiriad e-bost**
Efallai y byddwn yn defnyddio hwn i gysylltu â chi am CIS os ydych yn cofrestru ar gyfer ein gwasanaethau ar-lein.

11 **Ar ba ddyddiad y gwnaethoch ddechrau neu fwriadu dechrau gweithio yn y diwydiant adeiladu yn y DU?**
DD MM BBBB

12 **Math o waith rydych yn ei wneud yn y diwydiant adeiladu**
Er enghraifft, briciwr, plastrwr, labrwr, cynnal a chadw cyffredinol.

13 **Enw masnachu**
Os oes gennych enw masnachu sy'n wahanol i'r enw ym mlwch 2 a 3, nodwch ef yn y blwch isod.
Bydd eich enw masnachu (os oes gennych un) yn un o'r manylion y bydd y contractwr yn ei ddefnyddio i wirio eich hunaniaeth gyda ni cyn y gallant eich talu. Mae'n bwysig eich bod yn dweud wrthym os defnyddiwch enw gwahanol at ddibenion masnachu. Os na allwn baru'r manylion a roddwch i'r contractwr i wirio sut y cewch eich talu, bydd gennych gyfradd uwch o ddidyniad wedi'i chymryd o'ch taliadau.
Os nad oes gennych enw masnachu gwahanol, gadewch y blwch isod yn wag.

14 **Eich cyfeiriad masnachu**
Llenwch hwn dim ond os ydych am i ni anfon gohebiaeth i gyfeiriad sy'n wahanol i'ch cyfeiriad cartref a ddangosir ym mlwch 4.

Postcode

15 **Rhif TAW, os oes gennych un**

16 **Ymgynhorydd treth**
Os hoffech ddefnyddio'ch ymgynghorydd treth hunanasesiad presennol ar gyfer Cynllun y Diwydiant Adeiladu, rhowch 'X' yn y blwch isod.

17 **A gawsoch eich talu fel isgontractiwr yn y diwydiant adeiladu er 6 Ebrill 2007?** Rhowch 'X' mewn un blwch.

Na ☐ Iawn ☐

Os 'Iawn' beth yw'r rhif gwirio a roddwyd i chi gan y contractwr?

Os oes gennych fwy nag un rhif gwirio, rhowch y manylion ar ddalen bapur ar wahân a'i atodi i'r ffurflen hon.

## Datganiad

Rwyf yn datgan y canlynol:
- fy mod yn gwneud gwaith/yn chwilio am waith adeiladu neu'n trefnu iddo gael ei wneud
- mae'r wybodaeth a roddwyd gennyf ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred

Os ydych yn rhoi gwybodaeth ffug, caiff eich cais ei wrthod ac mae'n bosibl y byddwch yn wynebu cosbau o hyd at £3,000.
Ni chaniateir ymgynghorwyr treth i lofnodi ar eich rhan.

**Llofnod**

**Dyddiad** DD MM BBBB

## Yr hyn y mae angen i chi ei wneud nawr

Gwnewch yn siwr bod y canlynol yn wir:
- rydych wedi ateb y cwestiynau i gyd
- rydych yn llofnodi a dyddio'r datganiad
- os oes **gennych** rif Yswiriant Gwladol, anfonwch dudalennau 1 a 2 o'r ffurflen hon at:
  Gweithrediadau Treth Bersonol
  Cyllid a Thollau EF / HM Revenue and Customs
  BX9 1BX
- os nad oes gennych rif Yswiriant Gwladol, ewch i www.gov.uk/gwneud-cais-am-rif-yswiriant-gwladol

# Mae'r nodiadau hyn yn rhoi mwy o wybodaeth am gofrestru ar gyfer taliad dan ddidyniad.

## Sut i gofrestru

### Cysylltiadau

**Gymorth a Llinell Archebu CIS**
Ffôn 0300 200 1900

**Y We**
www.gov.uk/cis

Os ydych mewn busnes fel **unig fasnachwr** a'ch bod yn gwneud cais i gael eich **talu dan ddidyniad**, dim ond y ffurflen hon y mae'n rhaid i chi ei defnyddio, CIS301.

Os ydych mewn busnes fel **unig fasnachwr** a'ch bod yn gwneud cais i gael eich talu'n gros, defnyddiwch ffurflen CIS302.

Os yw'ch busnes yn **bartneriaeth**, defnyddiwch ffurflen CIS304 i gofrestru ar gyfer naill ai taliad o dan ddidyniad neu daliad gros.

Os yw'ch busnes yn **gwmni**, defnyddiwch ffurflen CIS305 i gofrestru ar gyfer naill ai taliad dan ddidyniad neu daliad gros.

Os nad ydych yn cofrestru ar gyfer Cynllun y Diwydiant Adeiladu, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i gontractwyr ddidynnu swm mwy o unrhyw daliadau a wneir i chi.

## Cofrestru ar-lein

Gallwch hefyd gofrestru i gael eich talu dan ddidyniad ar gyfer Cynllun y Diwydiant Adeiladu ar-lein, ewch i www.gov.uk/cis

## Taliadau ar ôl didynnu treth

Cyn gwneud y taliad cyntaf i chi fel is-gontractwr, mae'n rhaid i bob contractwr wirio'ch statws talu gyda ni. Os nad ydych yn gymwys i gael taliad gros mae'n rhaid i gontractwr, wrth wneud unrhyw daliad i chi fel is-gontractwr:

- gwneud didyniad oherwydd eich trethi a rhwymedigaethau CYG
- rhoi datganiad i chi o ddidyniadau a wneir bob mis treth incwm fel tystiolaeth o daliad a'r didyniad y maent wedi'i wneud

Mae'n rhaid i'r contractwr roi'r datganiad hwn i chi cyn pen 14 diwrnod i ddiwedd y mis treth y gwneir y taliad a'r didyniad ynddo.

Mae mis treth yn rhedeg o'r 6ed o 1 mis i'r 5ed o'r mis nesaf, er enghraifft 6 Ebrill i 5 Mai.

Os nad yw'r contractwr yn rhoi datganiad didyniad i chi, dylech ofyn am un. Bydd angen y datganiadau hyn arnoch i lenwi'ch Ffurflen Dreth ar ddiwedd y flwyddyn.

Trowch drosodd

## Manylion personol

**6** **Cyfeirnod Unigryw y Trethdalwr (UTR)**

Cyfeirnod treth 10 digid yw'r UTR a roddir i chi pan fyddwch yn cofrestru i fod yn hunangyflogedig. Fe welwch hyn yn eich cyfrif treth bersonol neu ar Ffurflenni Treth blaenorol a dogfennau eraill gan CThEF. Os nad oes gennych UTR, ewch i www.gov.uk/dod-yn-unig-fasnachwr/cofrestru-fel-unig-fasnachwr

**7** **Rhif Yswiriant Gwladol, os oes gennych un**

Gallwch ddod o hyd i'ch rhif Yswiriant Gwladol:

- ar ddogfen sydd gennych eisoes, er enghraifft P60, slip cyflog neu lythyrau am fudd-daliadau
- yn eich cyfrif treth personol
- yn ap CThEF
- yn eich ap Apple Wallet neu Google Wallet (os oeddech wedi ei gadw yno o'r blaen)

Gallwch hefyd ddefnyddio'ch cyfrif treth personol neu ap CThEF i lawrlwytho llythyr sy'n dangos eich rhif Yswiriant Gwladol.

Nid oes gennych rif Yswiriant Gwladol, ewch i www.gov.uk/gwneud-cais-am-rif-yswiriant-gwladol

**16** **Ymgynghorydd treth**

Am unrhyw ymholiadau am gynghorwyr treth ar gyfer CIS ffoniwch Linell Gymorth CIS ar 0300 200 3210.

## Preifatrwydd a Diogelu Data

**Sut yr ydym yn defnyddio'ch gwybodaeth**

Mae Cyllid a Thollau EF yn Rheolwr Data o dan Ddeddf Diogelu Data 2018. Rydym yn cadw gwybodaeth at y dibenion a bennir yn ein hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth, gan gynnwys asesu a chasglu trethi a thollau, talu budd-daliadau ac atal a chanfod troseddau, a gallwn ddefnyddio'r wybodaeth hon at unrhyw un o'r dibenion hynny.

Mae'n bosibl y cawn wybodaeth amdanoch gan eraill, neu efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth iddynt. Os gwnawn hynny, bydd yn unol â'r hyn y mae'r gyfraith yn caniatáu yn unig, a hynny er mwyn gwneud y canlynol:

- gwirio cywirdeb gwybodaeth
- atal neu ganfod troseddau
- diogelu arian cyhoeddus

Mae'n bosibl y byddwn yn cymharu gwybodaeth a gawn amdanoch â'r hyn sydd eisoes yn ein cofnodion. Gall hyn gynnwys gwybodaeth a roddwyd gennych chi, yn ogystal â chan eraill, megis asiantaethau neu adrannau eraill o'r llywodraeth ac awdurdodau treth a thollau tramor. Ni fyddwn yn rhoi gwybodaeth i unrhyw un y tu allan i Gyllid a Thollau EF, oni bai bod y gyfraith yn caniatáu i ni wneud hynny. I gael rhagor wybodaeth, ewch i www.gov.uk/government/organisations/hm-revenue-customs/about/personal-information-charter.cy